

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Finance to the Finance Minister
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for the Environment, Planning and Countryside

Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid Questions on Finance to the Finance Minister

Llinellau Gwariant y Gyllideb Budget Expenditure Lines

Q9 Mick Bates: Will the Minister make a statement on what considerations she gave while drawing up the budget on which BEL will receive the same cash funding in 2005-06 as in 2004-05? (OAQ38901)

The Finance Minister (Sue Essex): Our internal spending review enabled us to ensure that we aligned the budget with our strategic policy aims and provided an opportunity to consider how to spend our money effectively. Increases in spending have been concentrated in areas where they will have most effect.

C9 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn a ystyriwyd ganddi wrth lunio'r gyllideb ynghylch pa linell wariant o fewn y gyllideb a fydd yn derbyn yr un swm o arian yn 2005-06 ag a wnaeth yn 2004-05? (OAQ38901)

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Galluogodd ein hadolygiad mewnol o wariant i ni sicrhau ein bod yn cysoni'r gyllideb gyda'n nodau polisi strategol, a darparodd gyfle i ystyried sut i wario'n harian yn fwy effeithiol. Mae'r cynnydd mewn gwariant wedi'i ganolbwyntio yn yr ardaloedd lle y byddant yn cael yr effaith fwyaf.

Cynnydd yng Nghyllideb Addysg a Dysgu Gydol Oes Increase in the Education and Lifelong Learning Budget

Q10 Peter Black: What representations has the Minister received from the Minister of Education and Lifelong Learning regarding the percentage increase in her budget compared to that allocated to the education portfolio in England? (OAQ38913)

Sue Essex: I have received no such representations from the Minister for Education and Lifelong Learning. The draft budget reflects the Assembly Government's strategic policy aims. It would not reflect the needs of Wales if it merely attempted to copy UK Government decisions.

C10 Peter Black: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch y cynnydd canrannol yn ei chyllideb o'i gymharu â'r hyn a ddyrannwyd ar gyfer y portffolio addysg yn Lloegr? (OAQ38913)

Sue Essex: Nid wyf wedi derbyn sylwadau o'r fath gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu amcanion polisi strategol Llwyodraeth y Cynulliad. Ni fyddai'n adlewyrchu anghenion Cymru pe bai'n ceisio dynwared penderfyniadau Llywodraeth y

DU yn unig.

**Archif Genedlaethol i Gymru
A National Archive for Wales**

Q11 Owen John Thomas: Has the Minister received a request for additional and one-off funding from the Minister for Culture, Welsh Language and Sport to set up a national archive for Wales? (OAQ38902)

C11 Owen John Thomas: A yw'r Gweinidog wedi derbyn cais am arian ychwanegol a thaliadau un-tro gan y Gweinidog dros Ddiwylliant er mwyn sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru? (OAQ38902)

Sue Essex: There has been no such request from the Minister with responsibility for culture. The First Minister explained the reasons yesterday in his answer to your oral question about a national archive for Wales.

Sue Essex: Ni dderbyniwyd y fath gais gan y Gweinidog â chyfrifoldeb dros ddiwylliant. Eglurodd y Prif Weinidog y rhesymau ddoe wrth ateb eich cwestiwn llafar am archif genedlaethol i Gymru.

**Cyllideb Portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
The Budget for Social Justice and Regeneration Portfolio**

Q12 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on the budget provision for social justice and regeneration portfolio? (OAQ38921)

C12 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y portffolio cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio? (OAQ38921)

Sue Essex: When setting the draft budget, we ensured that allocations were aligned with the Assembly Government's strategic policy aims. The draft budget increased the social justice and regeneration portfolio provision by over 17 per cent between 2004-05 and 2007-08. This reflects our commitment to tackling poverty and supporting communities.

Sue Essex: Wrth bennu'r gyllideb ddrafft, gwnaethom sicrhau y byddai dyraniadau yn gyson â nodau polisi strategol Llywodraeth y Cynulliad. Cynyddodd y gyllideb ddrafft y ddarpariaeth ar gyfer y portffolio cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio o fwy na 17 y cant rhwng 2004-05 a 2007-08. Adlewyrcha hyn ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi a chynorthwyo cymunedau.

**Cyfrifoldeb Trawsbynciol Llywodraeth y Cynulliad
The Assembly Government's Cross-cutting Responsibility**

Q13 John Griffiths: Will the Minister make a statement on budget strategy to address the Assembly Government's cross cutting responsibility? (OAQ38894)

C13 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaeth y gyllideb i fynd i'r afael â chyfrifoldeb trawsbynciol Llywodraeth y Cynulliad? (OAQ38894)

Sue Essex: The spending review used our cross-cutting responsibilities, such as sustainable development and equal opportunities, as criteria in its evaluation of each spending programme. These cross-cutting priorities also underpin the delivery of each programme.

Sue Essex: Defnyddiodd yr adolygiad o wariant ein cyfrifoldebau trawsbynciol, megis datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal, fel meini prawf yn ei werthusiad o bob rhaglen wariant. Mae'r blaenoriaethau trawsbynciol hyn hefyd yn sail i gyflawni pob rhaglen.

**Cyflawni Amcanion 'Cymru: Gwlad Well'
Delivering the Aims of 'Wales: A Better Country'**

Q14 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on how the draft budget delivers the aims

C14 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd y gyllideb ddrafft yn

of 'Wales: A Better Country'? (OAQ38888)

cyflawni amcanion 'Cymru: Gwlad Well'? (OAQ38888)

Sue Essex: As well as delivering the 'Wales: A Better Country' top 10 commitments, the draft budget provides funding for a step change in the level of our capital investment, developing the talents of our young people, supporting children in their early years, and taking the Wanless agenda forward.

Sue Essex: Yn ogystal â chyflawni'r 10 prif ymrwymiad yn 'Cymru: Gwlad Well', mae'r gyllideb ddrafft yn darparu cyllid ar gyfer newid sylweddol yn y lefel o fuddsoddiad cyfalaf, gan ddatblygu talentau ein pobl ifanc, cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, a datblygu agenda Wanless.

Cyflwyno Addewidion Manifesto The Delivery of Manifesto Pledges

Q15 Ann Jones: Will the Minister make a statement on the way the draft budget will deliver the governing party's 10 manifesto pledges to the people of Wales? (OAQ38914)

C15 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd y gyllideb ddrafft yn cyflwyno'r 10 addewid ym manifesto'r blaid lywodraethu i bobl Cymru? (OAQ38914)

Sue Essex: The draft budget contains sufficient financial provision to deliver the top 10 commitments in 'Wales: A Better Country' either in specific budget expenditure lines or as part of our reserves.

Sue Essex: Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys digon o ddarpariaeth ariannol i gyflwyno'r 10 addewid uchaf yn 'Cymru: Gwlad Well' o ran llinellau gwariant cyllideb penodol neu fel rhan o'n cronfeydd wrth gefn.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Questions to the Minister for the Environment, Planning and Countryside

Codi Lefelau Ailgylchu Increasing Levels of Recycling

Q13 Sandy Mewies: Will the Minister make a statement on action that he is undertaking to increase levels of recycling in Wales? (OAQ38863)

C13 Sandy Mewies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae'n eu cymryd i godi lefelau ailgylchu yng Nghymru? (OAQ38863)

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): The Assembly Government published its national waste management strategy 'Wise About Waste: The National Waste Strategy for Wales' in 2002, which sets local authority recycling targets. The Assembly Government is providing £21 million in 2004-05 to assist in achieving these targets.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynlluniad ei strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff 'Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru' yn 2002, sy'n gosod y targedau ailgylchu ar gyfer awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth y Cynllunniad yn darparu £21 miliwn yn 2004-05 fel cymorth i gyflawni'r targedau hyn.

Defnyddio Cerbydau Tir Agored ar Hawliau Tramwy The Use of Off-road Vehicles on Rights of Way

Q14 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on the use of off road vehicles on rights of way? (OAQ38886)

C14 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddefnyddio cerbydau tir agored ar hawliau tramwy? (OAQ38886)

Carwyn Jones: Motorised vehicles can use certain rights of way, in particular byways open to all traffic—BOATs. However, illegal use of rights of way by off-road vehicles is problematic, and to help tackle this, new guidance is being prepared for highway and police authorities and new legislation is also being considered. A new group of interested parties in Wales is also looking at issues such as site provision.

Carwyn Jones: Gall cerbydau modur ddefnyddio rhai hawliau tramwy, yn arbennig cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig. Fodd bynnag, mae defnydd anghyfreithlon o hawliau tramwy gan gerbydau tir agored yn achosi problemau, ac er mwyn helpu i ddelio â hyn, mae canllawiau newydd yn cael eu paratoi ar gyfer yr heddlu ac awdurdodau priffyrdd, ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddeddfwriaeth newydd. Mae grŵp newydd o'r rhai â diddordeb yn y maes yng Nghymru hefyd yn edrych ar faterion fel darpariaeth safleoedd.

Deddfwriaeth ar Berthi Uchel High Hedge Legislation

Q15 Rosemary Butler: Will the Minister make a statement on high hedge legislation for Wales? (OAQ38882)

C15 Rosemary Butler: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddeddfwriaeth ar berthi uchel yng Nghymru. (OAQ38882)

Carwyn Jones: Regulations in relation to complaints about high hedges will be put to the Assembly shortly, and should be made by the end of December. The regulations will cover the maximum fee chargeable by local authorities for handling complaints and procedures for appeals to the Assembly on these decisions.

Carwyn Jones: Bydd rheoliadau yn ymwneud â chwynion ynglŷn â pherthi uchel yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad cyn bo hir, a dylai'r rheoliadau fod wedi'u llunio erbyn diwedd Rhagfyr. Byddant yn ymdrin â'r ffi uchaf y gall awdurdodau lleol ei godi i ddelio â chwynion ynghyd â gweithdrefnau ar gyfer apelio i'r Cynulliad ar y penderfyniadau hyn.